# Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Derbyn Myfyrwyr ag Euogfarnau Troseddol

| Fersiwn: | 1.0 | Dyddiad Cyhoeddi: | Hydref 2021 |
|---|---|---|---|
| Rheswm dros y diweddariad: | | | |
| Cymeradwywyd: | Bwrdd Recriwtio a Marchnata | Effeithiol o: | Hydref 2021 |
| Cyswllt | Sarah Whitehead, Dirprwy Gofrestrydd (Derbyniadau) | | |

*Sylwer nad yw'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n mynychu ysgolion haf, cyrsiau byr, cyrsiau'r Ganolfan Saesneg Rhyngwladol neu ddarpariaeth addysg gymunedol arall. Cynghorir ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau o'r fath i sgwrsio gydag arweinydd y rhaglen berthnasol cyn gwneud cais os oes ganddynt euogfarn droseddol.*

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod Prifysgol Aberystwyth yw rhoi cyfleoedd i ddarpar fyfyrwyr sydd â'r gallu i elwa ar radd neu gynllun arall, a'i gyflawni'n llwyddiannus, beth bynnag fo'u cefndir. Mae'r Brifysgol hefyd yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd gofal mewn perthynas â myfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod Prifysgol Aberystwyth ("y Brifysgol") yn cydbwyso ei rhwymedigaethau cyfreithiol (fel y nodir yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'i diwygiwyd) gyda'i dyletswydd i leihau peryglon i ddiogelwch ei myfyrwyr, ei staff a'i hymwelwyr.

1.2 Mae'r polisi hwn yn fframwaith ar gyfer asesu pob unigolyn sy'n datgan euogfarnau troseddol, eu haddasrwydd ar gyfer eu dewis gwrs a lefel y perygl posib i gymuned y Brifysgol (cyn belled ag y bo'n bosibl canfod hynny).

1.3 Mae'r polisi hwn hefyd yn amlinellu dull y Brifysgol o weithredu pan fo myfyrwyr yn cael euogfarnau troseddol ar ôl cael eu derbyn ac yn ystod eu hastudiaethau.

## 2.0 Diben a chwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sydd:

2.1.1 yn gwneud cais am raglen astudio ar unrhyw lefel yn y Brifysgol, waeth beth fo'r llwybr i wneud y cais (drwy UCAS, yn uniongyrchol neu mewn modd arall). Cyfeirir at yr unigolion hyn yn y polisi hwn fel "ymgeiswyr";

2.1.2 yn astudio unrhyw gwrs yn y Brifysgol. Cyfeirir at yr unigolion hyn yn y polisi hwn fel "myfyrwyr"; ac

2.1.3 yn gwneud cais am gyrsiau Prifysgol a ddarperir gan sefydliadau partner yn y Deyrnas Unedig a'r unigolion sy'n astudio'r cyrsiau hynny. Cyfeirir at yr unigolion hyn yn y polisi hwn fel "ymgeiswyr";

2.2 Mae'r polisi yn ceisio sicrhau bod y Brifysgol yn defnyddio proses deg, resymol ac eglur wrth ddelio ag euogfarnau troseddol ac yn ceisio sicrhau nad yw cael euogfarn yn rhwystro derbyniad yn awtomatig.

2.3 Caiff ymgeiswyr neu fyfyrwyr sydd o dan drwydded neu sy'n bwrw eu tymor mewn carchar eu hasesu yn unol â'r polisi hwn hefyd.

2.4 Gweithredir dwy broses ar wahân er mwyn ymdrin ag euogfarnau troseddol. Natur y cwrs dan sylw sy'n pennu pa broses sy'n berthnasol:

2.4.1 Ar gyfer unigolion sy'n gwneud cais am gyrsiau ac yn astudio yn y Brifysgol nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol, y cyfeirir atynt yn y polisi hwn fel "ymgeiswyr cyffredinol, **gweler y weithdrefn a amlinellir yn adrannau 6.0 ac 8.0 isod.**

2.4.2 Ar gyfer unigolion sy'n gwneud cais am gyrsiau ac yn astudio yn y Brifysgol sydd yn ddarostyngedig i ofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol, y cyfeirir atynt yn y Polisi hwn fel "Cyrsiau a Reoleiddir", **gweler y weithdrefn a amlinellir yn adrannau 7.0 ac 8.0 isod.**

2.5 Mae'r pwynt lle mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan manylion eu heuogfarnau troseddol a pha euogfarnau yn wahanol o dan bob gweithdrefn.

2.6 Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" yn y polisi hwn) yn berthnasol i bob ymgeisydd a myfyriwr, waeth beth fo'u cenedligrwydd a/neu lle maent yn byw. Golyga hyn na ellir cymryd euogfarnau sydd wedi darfod i ystyriaeth ar gyfer cyrsiau ac eithrio'r cyrsiau sy'n gofyn am wiriad cofnodion troseddol manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd euogfarnau a gafwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cael eu hasesu yn unol â'r drosedd gyfatebol yng nghyfraith Lloegr. Disgwylir i ymgeiswyr sydd angen fisa er mwyn cael caniatâd i astudio yn y Deyrnas Unedig gynnig yr un datgeliad ag ymgeiswyr sy'n dod o'r Deyrnas Unedig neu'n byw yn y Deyrnas Unedig, ond ar eu cais am fisa yn unig y gofynnir iddynt ddatgan pob euogfarn.

## 3.0 Diffiniadau

3.1 Ceir rhestr o'r derminoleg a ddefnyddir yn y Polisi hwn a'u hystyr isod:

3.1.1 "Euogfarn" Droseddol

Ar gyfer ymgeiswyr cyffredinol, ni ystyrir fod rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol yn euogfarnau. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer Cyrsiau a Reoleiddir ddatgan pob euogfarn a rhybudd, cerydd a rhybudd terfynol.

Nid ystyrir bod hysbysiadau cosb am anhrefn (PND), gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO) neu orchmynion eraill yn euogfarnau, oni bai bod PND wedi'i herio, neu fod telerau ASBO neu orchymyn arall wedi'u torri, a bod hyn wedi arwain at euogfarn droseddol.

3.1.2 Euogfarn droseddol "berthnasol"

Ystyrir bod y canlynol yn euogfarnau troseddol "perthnasol" at ddibenion y Polisi hwn, yn ogystal â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig y Brifysgol:

- Troseddau sy'n ymwneud ag unrhyw fath o drais gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ymddygiad bygythiol, troseddau sy'n ymwneud â'r bwriad i niweidio neu droseddau a arweiniodd at niwed corfforol gwirioneddol;
- Troseddau rhywiol gan gynnwys y rhai a restrir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 (fel y'u diwygiwyd neu eu disodlwyd);
- Cyflenwi cyffuriau neu sylweddau rheoledig yn anghyfreithlon lle mae'r euogfarn yn ymwneud â gwerthu cyffuriau at ddibenion masnachol neu fasnachu cyffuriau;
- Troseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio neu losgi bwriadol;
- Troseddau sy'n ymwneud â therfysgaeth gan gynnwys y rhai a restrir yn Neddf Terfysgaeth 2006 (fel y'u diwygiwyd neu a ddisodlwyd).

Ystyrir hefyd bod euogfarnau a gafwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar gyfer unrhyw un o'r troseddau a restrir uchod yn droseddau perthnasol.

3.1.3 Euogfarnau sydd "wedi darfod" a "heb ddarfod"

Ar ôl cyfnod penodol o amser bydd y mwyafrif o euogfarnau troseddol "wedi darfod”. Nodir yr amser mae’n ei gymryd i euogfarn fod wedi darfod yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac mae'n ddibynnol ar y ddedfryd a basiwyd gan y llys ar adeg yr euogfarn. Gall euogfarnau ychwanegol effeithio ar ba bryd y bydd yr euogfarnau eraill wedi darfod. Ar wahân i rai eithriadau, cyn gynted ag y bydd euogfarn wedi darfod, caiff yr unigolyn ei drin fel pe na chyflawnwyd y drosedd erioed ac nid yw'n ofynnol iddynt ddatgelu euogfarnau sydd wedi darfod. Mae'r rhan fwyaf o rybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol yn darfod ar unwaith, felly ni fyddant 'heb ddarfod' yn arferol.

Os nad yw'r cyfnod amser perthnasol wedi mynd heibio, bydd yr euogfarn “heb ddarfod”.

Mae canllawiau pellach ar y gwahaniaeth rhwng euogfarnau sydd wedi darfod a heb ddarfod yma.

3.1.4 Cyrsiau a Reoleiddir

Cyrsiau a reoleiddir yw'r rhai sy'n ddarostyngedig i ofynion corff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol. Gall cyrsiau o'r fath hefyd olygu gwaith ar leoliad gyda phlant a / neu oedolion agored i niwed. Er enghraifft TAR a Nyrsio.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sydd eisiau dilyn Cwrs a Reoleiddir gael gwiriad manylach boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato fel

"gwiriad DBS") er mwyn cael cofrestru ar y cwrs. Mae rhagor o wybodaeth am wiriadau DBS ar gael yma .

## 4.0 Egwyddorion allweddol

4.1 Mae'r egwyddorion allweddol canlynol yn berthnasol i'r ffordd y mae'r Brifysgol yn prosesu gwybodaeth am euogfarnau troseddol:

4.1.1 Asesu Ceisiadau

Nid yw'r Brifysgol yn ffurfio barn foesol wrth asesu ceisiadau. Caiff pob cais ei asesu yn wrthrychol, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, er mwyn penderfynu a yw person yn peri risg annerbyniol i fyfyrwyr, staff neu ymwelwyr, a oes cyfyngiadau cyfreithiol ar waith sy'n golygu nad yw'n ymarferol i'r unigolyn astudio'r cwrs arfaethedig, ac (ar gyfer Cyrsiau a Reoleiddir) a all unigolyn fodloni'r gofynion statudol neu ofynion proffesiynol penodol.

Caiff pob cais i'r Brifysgol asesiad cychwynnol ar sail ei addasrwydd academaidd ni waeth beth fo'r euogfarnau troseddol. Os na fydd yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf academaidd gofynnol neu feini prawf gofynnol y cwrs proffesiynol, caiff y cais ei wrthod trwy'r drefn Dderbyn safonol.

Lle datgelir euogfarn droseddol berthnasol, os yw asesiad cychwynnol o addasrwydd academaidd y cais yn foddhaol, trosglwyddir y cais i'r Dirprwy Gofrestrydd (Derbyniadau), neu i'r enwebai, a dilynir y broses a amlinellir yn adrannau 6 neu 7 isod. Bydd y broses a ddilynir yn dibynnu ar p'un ai yw'r cais yn un am gwrs a Reoleiddir ai peidio.

4.1.2 Cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol ymgeisydd neu fyfyriwr presennol yn cael ei chadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol, a dim ond i'r staff hynny yn y Brifysgol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesu'r wybodaeth o dan y Polisi hwn y mae hi ar gael.

Cedwir y dogfennau sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol at y diben y cawsant eu darparu, sef penderfyniad ynglŷn â derbyn.

Os bydd ymgeisydd sydd wedi datgelu euogfarn droseddol yn cofrestru ar gwrs nad yw'n dod o dan gategori cwrs a reoleiddir/cwrs proffesiynol, bydd y wybodaeth sy'n ymwneud â'r euogfarn/achosion troseddol yn cael ei dinistrio o fewn chwe mis ar ôl dechrau'r cwrs oni bai bod amodau cysylltiedig â derbyn yn golygu bod angen cadw'r wybodaeth honno tan ar ôl i'r cwrs gael ei gyflawni (er enghraifft, byddai angen cynnal asesiad risg ar wahân pe byddai'r myfyriwr yn penderfynu gwneud cais am le mewn neuadd breswyl ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod cofrestru). Ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau a reoleiddir, bydd y wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw euogfarn droseddol yn cael ei dinistrio gan y Brifysgol chwe mis ar ôl i'r myfyriwr raddio. Diben hyn yw rhoi modd i'r Brifysgol gynorthwyo gyda chais y myfyriwr am gofrestriad proffesiynol ar ôl cwblhau'r cwrs gyda'r corff rheoleiddio perthnasol (megis y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth neu'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal).

Ar ôl cofrestru, bydd pob cofnod a gedwir gan y Swyddfa Dderbyn sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol naill ai'n cael ei ddinistrio, neu ei drosglwyddo'n ddiogel i yriant a rennir gan y Gofrestrfa Academaidd ar gyfer disgyblaeth myfyrwyr fel y bo'n briodol i'r achos unigol.

Os gwrthodir mynediad i ymgeisydd, caiff y dogfennau eu dinistrio o fewn chwe mis i ddyddiad cychwyn arfaethedig y cwrs.

Os nad yw ymgeisydd yn derbyn ei le nac yn dechrau astudio yn y Brifysgol neu gydag un o bartneriaid y Brifysgol, bydd copïau o unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarn droseddol yn cael eu dinistrio o fewn chwe mis i ddyddiad cychwyn arfaethedig y cwrs.

4.1.3 Rhwymedigaeth i Ddatgelu

Cyfrifoldeb ymgeiswyr a myfyrwyr unigol yw datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eu hastudiaethau hwy eu hunain a/neu beryglu'r gwaith o ddiogelu staff, myfyrwyr neu ymwelwyr y Brifysgol. Cyfrifoldeb ymgeiswyr a myfyrwyr yw datgelu unrhyw resymau cyfreithiol sy'n eu cyfyngu neu’n eu hatal rhag mynd i mewn i eiddo'r brifysgol, a/neu weithio gydag unigolion, a/neu weithio gyda grwpiau, a/neu ddefnyddio'r rhyngrwyd drwy systemau ac adnoddau'r Brifysgol. Gellir ystyried bod methu â datgan y wybodaeth hon i'r Brifysgol yn torri Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol a gellir gosod cosbau yn unol â hynny.

Rhaid i ymgeiswyr sy'n cael eu heuogfarnu o unrhyw drosedd ar ôl gwneud cais am le a chyn cofrestru ar eu cwrs roi gwybod i Swyddfa Dderbyn y Gofrestrfa Academaidd datganderbyn@aber.ac.uk ar unwaith (ac yn ddim hwyrach na 48 awr ar ôl derbyn yr euogfarn). Caiff yr euogfarn wedyn ei hystyried yn unol â'r prosesau a amlinellir yn adrannau 6.0 a 7.0 isod fel y bo'n briodol.

Os disgwylir i ymgeisydd fod o dan drwydded neu ddedfryd o garchar ar ddyddiad dechrau arfaethedig ei gwrs dewisol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ohirio unrhyw benderfyniad ar y cais hyd nes y bydd telerau'r drwydded neu'r ddedfryd o garchar wedi'u cyflawni.

Rhaid i fyfyrwyr presennol sy'n cael eu heuogfarnu o drosedd yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol hysbysu'r Brifysgol ar unwaith am y troseddu, ni waeth beth fo natur y troseddu hwnnw, datganderbyn@aber.ac.uk. Caiff yr euogfarn ei hystyried wedyn yn unol â'r prosesau a amlinellir yn adrannau 8 isod.

Sylwer, os ydych yn astudio Cwrs a Reoleiddir, mae'n bosib y bydd yn ofynnol yn ôl y Codau Ymddygiad neu'r canllawiau a gyhoeddir gan y corff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol perthnasol i chi hysbysu'r Brifysgol os cewch eich arestio neu ar ôl cael eich cyhuddo o drosedd (nid dim ond pan fyddwch yn cael eich euogfarnu). Dylai myfyrwyr ar Gyrsiau a Reoleiddir ofyn am gyngor gan eu hadran academaidd cyn gynted â phosib.

Os na fydd ymgeisydd neu fyfyriwr cofrestredig datgelu'r wybodaeth ofynnol yn gywir, gallai hyn arwain at dynnu'r cynnig o le ar y cwrs yn ôl/ tynnu'r myfyriwr oddi ar ei gwrs.

**5.0 Datgeliadau Dienw**

5.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai gwybodaeth gan ymgeisydd neu fyfyriwr a dderbynnir yn ddienw am drosedd honedig ymgeisydd, neu gan drydydd parti, fod yn anghywir neu o natur annifyr. Bydd y Brifysgol yn ceisio gwirio'r wybodaeth a roddir ac yn dychwelyd at y weithdrefn a amlinellir yn y Polisi hwn. Os bernir bod ymgeisydd wedi dal gwybodaeth yn ôl yn fwriadol, gellir tynnu’r cais yn ôl yn ogystal ag unrhyw gynnig o le. Os bernir fod myfyriwr presennol wedi dal gwybodaeth yn ôl yn fwriadol, gellir ei dynnu oddi ar ei gwrs. Ni fydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i unrhyw honiad a wneir yn ddienw neu gan drydydd parti ac na ellir ei ddilysu.

**6.0 Gweithdrefn ar gyfer Ymgeiswyr Cyffredinol**

6.1 Mae gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer delio ag ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol (ac eithrio'r rhai sy'n gwneud cais am Gyrsiau a Reoleiddir) wedi'i nodi isod.

6.1.1 Cyfeirir ymgeiswyr llwyddiannus at y gofyniad i ddatgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eu hastudiaethau hwy eu hunain a/neu beryglu diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr y Brifysgol, fel y nodir yn Nhelerau ac Amodau Myfyrwyr y lefel astudio briodol, a/neu yn y llythyr cynnig. Mae'r myfyrwyr yn cadarnhau eu hymwybyddiaeth o'r gofyniad hwn yn flynyddol yn ystod y broses gofrestru, a hefyd wrth gwblhau pecynnau trwydded er mwyn byw mewn llety a reolir gan y Brifysgol.

6.1.2 Y Cofrestrydd Academaidd yw'r swyddog dynodedig sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ystyried datgeliadau cyfyngiadau cyfreithiol. Eu dirprwyon yw'r Dirprwy Gofrestrydd (Derbyniadau), y Cofrestrydd Cynorthwyol (Derbyniadau Israddedig) a'r Cofrestrydd Cynorthwyol (Derbyniadau Uwchraddedig ac Ansafonol).

6.1.3 Ar ôl derbyn datgeliad sy'n ymwneud ag ymgeisydd, caiff y Cofrestrydd Academaidd (neu un o'i ddirprwyon) ofyn am fanylion pellach am yr euogfarn(au).

6.1.4 Bydd y Cofrestrydd Academaidd (neu un o’i ddirprwyon) yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd am bob cais a ddaw gan unigolion ag euogfarnau troseddol, yn ogystal â’r manylion a ddarperir gan yr ymgeisydd, a bydd y broses o asesu risg yr euogfarn droseddol yn cael ei dechrau.

6.1.5 Pennaeth Panel Euogfarnau Troseddol y Brifysgol yw'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ac ar y panel hefyd mae'r Cofrestrydd Academaidd, y Dirprwy Gofrestrydd Derbyniadau a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, neu eu henwebeion. Bydd aelodau'r Panel Euogfarnau Troseddol yn cynnal asesiad risg er mwyn penderfynu a ellir derbyn yr ymgeisydd i’r Brifysgol ac a oes rhaid gosod unrhyw amodau wrth gofrestru. Nodir y canlyniadau posib isod:

i. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru heb unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r euogfarn droseddol;

ii. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru ond yn unol ag amodau sy'n gysylltiedig â'r troseddu, er enghraifft mewn perthynas â llety'r Brifysgol, mynediad i rannau o'r campws neu ddefnyddio offer TG;
iii. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru ond ar gwrs amgen; neu
iv. Tynnu'r cais/cynnig yn ôl ac atal yr ymgeisydd rhag cofrestru.

6.1.6 Cadarnheir y penderfyniad terfynol ynglŷn â chaniatáu i'r ymgeisydd barhau trwy'r broses dderbyn neu beidio gan y Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr.

6.1.7 Os penderfynir derbyn ymgeisydd, ond bod yn rhaid gosod amodau (er enghraifft eu hatal rhag defnyddio rhai adnoddau o bosib, neu fod angen cynnal asesiad risg ar wahân pe byddai'r ymgeisydd yn dewis gwneud cais am lety a reolir gan y Brifysgol), bydd amodau o'r fath yn cael eu hegluro yn ysgrifenedig. Bydd y llythyr hwn hefyd yn nodi a fydd trosglwyddo'r wybodaeth i rai aelodau o staff y Brifysgol ar sail 'angen gwybod' yn un o'r amodau derbyn.

6.1.8 Os daw'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr i'r casgliad bod gwrthod lle yn "angenrheidiol er budd ... diogelwch y cyhoedd ... er mwyn atal anhwylder neu droseddu, er mwyn amddiffyn iechyd neu foesau, neu er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid eraill "(Deddf Hawliau Dynol, 1998), cynghorir yr ymgeisydd bod derbyniad wedi'i wrthod oherwydd ei gofnod/chofnod troseddol.

6.1.9 Hysbysir ymgeiswyr yn ysgrifenedig o'r rhesymau dros ganlyniad proses y Panel Euogfarnau Troseddol, ac o'u hawl i apelio i'r Is-Ganghellor os byddant yn anfodlon â'r broses.

## 7.0 Gweithdrefn i Ymgeiswyr Cyrsiau a Reoleiddir

7.1 Mae cyrsiau a reoleiddir yn gweithredu o fewn fframweithiau proffesiynol, statudol a rheoleiddiol a chyfrifoldeb y Brifysgol, ar y cyd â'n partneriaid ymarfer, yw asesu perygl ymgeiswyr/myfyrwyr â chofnod troseddol sydd newydd gofrestru. Rhan annatod o rai Cyrsiau a Reoleiddir yw lleoliadau sy'n aml yn cynnwys cyswllt rheolaidd â phlant, pobl ifanc neu grwpiau eraill bregus. O'r herwydd, mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud cais am le ar Gyrsiau a Reoleiddir ddatgan ystod ehangach o droseddau a chael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd y wybodaeth am y cynllun gradd yn nodi cyrsiau sy'n cael eu rheoleiddio a pha bryd mae angen gwiriad DBS manylach.

7.2 Crynhoir gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer delio ag ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol sy'n ceisio mynediad i Gyrsiau a Reoleiddir fel a ganlyn:

7.2.1 Ymgeisydd yn gwneud datganiad o euogfarnau troseddol wrth wneud cais i'r Brifysgol (trwy UCAS neu trwy gais uniongyrchol);

7.2.2 Gwneir gwiriad DBS manylach;

7.2.3 Os yw'r gwiriad DBS yn datgelu manylion am euogfarnau troseddol neu wybodaeth berthnasol arall, h.y. “datgeliad cadarnhaol” yna bydd y Brifysgol yn gofyn am gopi o'r dystysgrif lawn.

7.2.4 Asesir y datgeliad cadarnhaol gan banel DBS, a fydd yn cynnal asesiad risg er mwyn penderfynu a ellir derbyn yr ymgeisydd i'r Brifysgol.

7.2.5 Os yw'r ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad proses y Panel DBS yna mae ganddynt hawl i apelio.

7.3 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod cael gwiriad DBS boddhaol yn un o amodau contract y myfyrwyr gyda'r Brifysgol ac y gellir eu hatal rhag cofrestru nes bod canlyniad y gwiriad wedi'i dderbyn a'i ystyried. Ni fydd myfyrwyr yn cael bwrw ymlaen ag unrhyw leoliad nes bod gwiriad DBS boddhaol wedi'i dderbyn neu (mewn achosion o ddatgeliad cadarnhaol) bod caniatâd i gofrestru wedi'i gadarnhau gan y Panel DBS.

7.4 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu myfyriwr oddi ar y cwrs os bydd gwiriad DBS yn cael ei gwblhau ar ôl cofrestru a bod asesiad dilynol o dan y weithdrefn hon yn barnu bod myfyriwr yn anaddas ar gyfer y cwrs a ddewisodd.

7.5 Canlyniad y Gwiriad DBS

7.5.1 Pan fydd y gwiriad DBS wedi'i gwblhau, os nad oes unrhyw gofnodion ar y dystysgrif yna ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas ag euogfarnau troseddol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth barhaus i ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol trwy gydol cyfnod eu hastudiaethau yn y Brifysgol (gweler 4.1.3 uchod).

7.5.2 Os oes datgeliad cadarnhaol (euogfarnau neu wybodaeth arall wedi ei chofnodi ar y dystysgrif DBS) bydd y Brifysgol yn gofyn am gopi o'r dystysgrif lawn, a chaiff ei dwyn i sylw Panel DBS y Brifysgol.

7.6 Ystyriaeth gan Banel DBS y Brifysgol

Bydd Panel DBS y Brifysgol yn adolygu manylion yr euogfarnau troseddol ac yn penderfynu:

- a yw'n bosib i’r ymgeisydd yn gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol y cwrs a ddewiswyd ganddo;
- addasrwydd yr ymgeisydd i astudio'r cwrs a reoleiddir;
- a yw'r ymgeisydd yn berygl annerbyniol i fyfyrwyr, staff neu ymwelwyr yn y Brifysgol

Nodir y canlyniadau posib isod:

i. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru ond ar yr amod bod y myfyriwr yn cael dau dystlythyr proffesiynol boddhaol;
ii. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru heb unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r euogfarn droseddol;
iii. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru ond yn unol ag amodau sy'n gysylltiedig â'r troseddu, er enghraifft mewn perthynas â llety'r Brifysgol, mynediad i rannau o'r campws neu ddefnyddio offer TG;
iv. Caniatáu i'r ymgeisydd gofrestru ond ar gwrs amgen; neu
v. Tynnu'r cynnig yn ôl/terfynu ac atal yr ymgeisydd rhag cofrestru.

7.7 Apêl

Os yw'r ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad penderfyniad y Panel, mae ganddo/ganddi hawl i ofyn am apêl.

## 8.0 Myfyrwyr Presennol

8.1 Mae'n ofynnol i fyfyrwyr presennol roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw euogfarnau troseddol y maent yn eu cael yn ystod cyfnod eu hastudiaethau yn Aberystwyth. Mae'n bosib y bydd gofyn i fyfyrwyr ar Gyrsiau a Reoleiddir hysbysu'r Brifysgol os cânt eu harestio ar amheuaeth o gyflawni trosedd ac nid os dyfernir hwy'n euog yn unig. Gweler Rhwymedigaeth i Ddatgelu yn adran 4.1.3 uchod.

8.2 Dylid hysbysu'r Brifysgol o euogfarnau troseddol trwy gysylltu ag datganderbyn@aber.ac.uk cyn gynted â phosib. Bydd gofyn i chi wedyn roi mwy o wybodaeth i'r Brifysgol am natur y troseddu. Oni bai eich bod yn fyfyriwr ar Gwrs a Reoleiddir, bydd eich ymddygiad wedyn yn cael ei ystyried yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu'r Brifysgol. Yn achos myfyrwyr sy'n astudio Cyrsiau a Reoleiddir, bydd unrhyw ymddygiad troseddol neu ymddygiad troseddol honedig yn cael ei ystyried yn unol â Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

8.3 Os ydych chi'n fyfyriwr presennol ar Gwrs a Reoleiddir ac yn tynnu'n ôl dros dro am chwe mis neu fwy, bydd gofyn i chi gael Datgeliad Manylach arall gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn mynd ymlaen i ddysgu ar leoliad. Mewn rhai achosion, bydd yn ofynnol i fyfyrwyr ar Gyrsiau a Reoleiddir ddarparu Datgeliad DBS Manylach bob blwyddyn ar eu traul eu hunain er mwyn sicrhau nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad pellach â'r Heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 9.0 Cymorth a Chefnogaeth

Os hoffech drafod eich amgylchiadau gyda rhywun yn y Brifysgol cyn gwneud cais, neu yn ystod y broses ymgeisio, cysylltwch ag datganderbyn@aber.ac.uk a byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib.

Mae Unlock yn elusen annibynnol sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl sydd ag euogfarnau.

Canllawiau UCAS ar euogfarnau troseddol.